| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **23 MAI 2024** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2024** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2024 hyd 31 Mawrth 2024.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2023-24 yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 12 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

**2.2 Adroddiadau Archwilio**

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Answyddogol Ysgolion | Addysg | Ysgolion | Digonol | Atodiad 1 |
| Darpariaeth Addysg Ôl-16 | Addysg | Ysgolion | Uchel | Atodiad 2 |
| Dilyniant – Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio | Amgylchedd | Cynllunio ac Amgylchedd | Digonol | Atodiad 3 |
| Gwastraff Gardd | Amgylchedd | Uned Gwastraff | Digonol | Atodiad 4 |
| Gwastraff Swmpus | Amgylchedd | Uned Gwastraff | Digonol | Atodiad 5 |
| Incwm Masnachol | Amgylchedd | Uned Gwastraff | Cyfyngedig | Atodiad 6 |
| Rheolaeth Categori Corfforaethol | Cefnogaeth Gorfforaethol | Caffael | Cyfyngedig | Atodiad 7 |
| Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 8 |
| Trefniadau Diogelu – Sefydliadau | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 9 |
| Rheolaethau Allweddol Budd-Daliadau | Cyllid | Refeniw | Digonol | Atodiad 10 |
| Cartref Cefn Rodyn | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Oedolion | Digonol | Atodiad 11 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Dilyniant – Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar draws yr Adran | Cyfyngedig | Atodiad 12 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mawrth 2024:

- Dilyniant - Manddaliadau *(Tai ac Eiddo)*

Gwnaethpwyd sawl cais i'r Gwasanaeth Eiddo – Stadau am ddiweddariad ar y sefyllfa ond ni dderbyniwyd ymateb yn amserol. Penderfynwyd yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth Tai ac Eiddo, y bydd yr archwiliad yn llithro i gynllun 2024-25.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2023 hyd 31 Mawrth 2024, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**CRONFEYDD YSGOL**

**1. Cefndir**

1.1 Mae paragraff 16.22.1 o gyfansoddiad y Cyngor yn nodi:

*'Lle mae Swyddog y Cyngor, yn rhinwedd ei swydd, yn gyfrifol am arian neu nwyddau sydd yn eiddo Cronfa sy'n gysylltiedig ag un o sefydliadau'r Cyngor, ac amcan y gronfa yn cyd-fynd â'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor:*

- *(a) Rhaid i'r Swyddog gadw'r holl arian neu nwyddau sy'n eiddo'r gronfa answyddogol ar wahân i rai'r Cyngor.*
- *(b) Rhaid cadw cyfrifon iawn, a'u cadw ar wahân i rai'r Cyngor.*
- *(c) Rhaid i'r corff sy'n rheoli'r gronfa benodi person cymwys yn archwiliwr, i archwilio gweithgareddau'r gronfa yn flynyddol, ac i adrodd i'r corff sy'n rheoli'r gronfa neu i'r Llywodraethwyr yn achos ysgolion neu golegau.*
- *(ch) Rhaid i'r adroddiadau blynyddol hyn fod ar gael i'r Archwilwyr Mewnol eu harchwilio os gofynnant amdanynt.'*

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a gweinyddu addas mewn lle ar gyfer cronfeydd ysgol. Er mwyn cyflawni hyn, detholwyd sampl o ysgolion ar gyfer cynnal archwiliad llawn ar y cyfrifon hyd at 2022/23.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Detholwyd sampl o 6 ysgol gynradd. Gwelwyd bod pob ysgol yn defnyddio'r 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol 2010', ond nid yw'r canllawiau yn cwmpasu prosesau sydd fwy cyffredin heddiw, e.e. taliadau ar-lein a defnydd o gardiau banc, yn ogystal â'r drefn ynglŷn â chau cronfeydd.

5.2 Roedd rhai o'r ysgolion yn y sampl yn defnyddio cerdyn banc, er nid yw'r canllawiau yn cyfeirio at y defnydd ohonynt. Gellir dilyn yr un drefn â sieciau ar gyfer taliadau ar-lein a cherdyn banc, gyda'r ail berson yn arwyddo copi papur o'r hyn sydd am gael ei archebu o flaen llaw, ble'n bosib.

5.3 Wedi trafodaethau am ychydig o wariant penodol, gwelwyd bod defnydd y cronfeydd yn briodol, ond gwelwyd achosion lle'r oedd taliadau dyblyg h.y. bod anfoneb wedi ei thalu ddwywaith, neu staff wedi hawlio'r un costau dwywaith. Rhoddwyd camau mewn lle gan y Penaethiaid perthnasol i gywiro hyn.

5.4 Gwelwyd bod diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â'r drefn archwilio cyfrifon. Gwelwyd dau achos lle'r oedd dryswch ynglŷn â phwy oedd yn paratoi'r cyfrifon ac yn eu harchwilio, a'r angen i'r ddwy rôl yma fod ar wahân. Yn unol â Rheolau Gweithdrefnol Ariannol 16.22.1 (c) Cyngor Gwynedd, *"Rhaid i'r corff sy'n rheoli'r gronfa benodi person cymwys yn archwiliwr, i archwilio gweithgareddau'r gronfa yn flynyddol, ac i adrodd i'r corff sy'n rheoli'r gronfa neu i'r Llywodraethwyr yn achos ysgolion neu golegau."* Dylai'r person yma fod yn brofiadol gyda chymwysterau addas ac yn annibynnol, a ni ddylai'r archwiliwr gymryd unrhyw ran yng ngweithgareddau dydd i ddydd y gronfa.

5.5 Mae amod 19.1(ch) o Reolau Ariannol i Ysgolion â Chyllidebau Dirprwyedig yn datgan;
*"Bydd yn rhaid gyrru adroddiadau o'r fath wedi eu hardystio gan yr archwilydd ynghyd â chopi o'r cofnod pwyllgor perthnasol yn cydnabod derbyn y cyfrifon wedi eu harchwilio i'r Adain Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn flynyddol".*
Yn gyffredinol, nid yw hyn yn digwydd. Yn ystod yr archwiliad nodwyd rhai ysgolion nad ydynt wedi derbyn cais i anfon y dogfennau ac felly heb wneud ac nid oedd eraill yn ymwybodol o'r angen i wneud. Nid yw'r canllawiau cyfredol yn cyfeirio at hyn.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Diweddaru'r canllawiau i lywodraethwyr a phenaethiaid ar reolaeth cronfeydd.**
- **Rheadru'r canllawiau i bob Pennaeth a threfnu hyfforddiant yn ôl yr angen.**
- **Darparu hyfforddiant ar gronfeydd ysgol yn y sesiynau presennol ar gyfer cadeiryddion a llywodraethwyr newydd.**
- **Rhaeadru ac amlygu newidiadau i benaethiaid, cadeiryddion a llywodraethwyr sydd eisoes wedi eu penodi er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r trefniadau a'u dyletswyddau.**

Atodiad 2

**DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16 2022-23**

**1. Cefndir**

1.1 Dyrannwyd dros £4m i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflenwi darpariaeth addysg ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd. Yn ogystal, dyrannwyd hyd at £189k ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

Atodiad 3

## DILYNIANT CYNLLUNIO – TREFNIADAU CYFATHREBU

### 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cynllunio – Trefniadau Cyfathrebu fel rhan o gynllun 2022/23, er mwyn sicrhau fod trefniadau cyfathrebu addas mewn lle ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol gwiriwyd sampl o ymholiadau a cheisiadau cynllunio a sicrhau bod y prydlondeb ymateb yn unol â Siarter Cynllunio Cyngor Gwynedd. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau a holi'r swyddogion perthnasol ynglŷn â'r gweithrediadau cytunedig.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Yn sgil yr archwiliad gwreiddiol ym mis Mawrth 2023 adnabuwyd 3 risg, un gyda sgôr risg uchel (R01) a dau ganolig (R02 a R03). Gwelwyd bod y risgiau a adnabuwyd wedi derbyn sylw ac adroddir ar gasgliadau'r dilyniant isod. Ail aseswyd y risgiau gwreiddiol gyda'r canlyniad bod R01 a R02 nawr yn risgiau canolig a R03 wedi cael ei ddisodli yn sgil y newidiadau.

5.2 ***Risg R01: Methiant i gydymffurfio gyda gofynion statudol all arwain at golledion ariannol i'r Cyngor a/neu gwynion i'r ombwdsmon.***

Ceisiadau cynllunio

5.2.1 Yn statudol, dylid anelu i wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio o fewn 8 wythnos (56 diwrnod) neu gydag estyniad amser wedi ei gytuno. Gwiriwyd sampl o 20 o geisiadau cynllunio sydd wedi derbyn penderfyniad a gwelwyd eu bod wedi cymryd 6.6 wythnos (46 diwrnod) ar gyfartaledd. Roedd 4 cais yn y sampl wedi cymryd mwy nag 8 wythnos ond gwelwyd bod llythyrau/e-byst estyniad amser wedi eu hanfon i'r ymgeiswyr a'u cytuno. Yn ogystal, roedd 19 allan o 20 o'r ymgeiswyr wedi derbyn llythyr cydnabod cais.

5.2.2 Derbyniwyd copi o 'Adroddiad Herio a Chefnogi Perfformiad' diweddaraf yr Adran Amgylchedd a gwelwyd bod 80% o benderfyniadau ceisiadau cynllunio o fewn yr amser statudol.

Ceisiadau cyngor cyn-cyflwyno cais

5.2.3 Bydd y Cyngor yn darparu cyngor ffurfiol ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o ddyddiad cofrestru ffurflen gais am gyngor cyn cyflwyno cais sef y cyfnod statudol. Detholwyd sampl o 20 o geisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais ond roedd 1 yn annilys, o'r 19 yn weddill, gwelwyd eu bod wedi cymryd 46.5 diwrnod ar gyfartaledd i ymateb. 5 allan o 19 oedd wedi derbyn ymateb o fewn 21 diwrnod. Ar gyfer y 14 oedd yn weddill gwelwyd ond 2 achos lle'r oedd llythyr/e-bost estyniad amser wedi eu hanfon i'r ymgeiswyr. Roedd pob un o'r ceisiadau yma wedi derbyn llythyr cydnabod cais.

5.2.4 Eglurodd y Rheolwr Cynllunio (Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth) dylai llythyrau estyniad amser cael eu hanfon i ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno cais os nad ydynt yn gallu darparu ymateb o fewn y cyfnod statudol. Cadarnhaodd bod y tîm yn ymwybodol o'r angen i wneud hyn a'i bod ar y gweill gan y gwasanaeth.

5.3 ***Risg 02: Diffyg trywydd archwilio gall arwain at drafferthion petai apêl neu gŵyn yn erbyn y gwasanaeth.***

Ni ddylai'r Arweinyddion Tîm awdurdodi penderfyniadau nes bod yr holl gofnodion yn gyflawn, gwelwyd bod y Rheolwr Cynllunio (Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth) wedi atgoffa'r Arweinyddion Tîm i sicrhau fod cofnodion wedi ei ffeilio cyn awdurdodi unrhyw benderfyniad. Ni ddaethpwyd ar draws achos heb gofnodion wrth wirio'r samplau uchod.

5.4 ***Risg R03: Methiant i gydymffurfio gyda Siarter Cynllunio Cyngor Gwynedd all arwain at:***

- ***niferoedd uchel o geisiadau anghyflawn a/neu annilys***
- ***fwy o ymholiadau gan ymgeiswyr***
- ***drwg deimlad.***

Trafodwyd llynedd bod rhai elfennau o'r 'Siarter Cynllunio' a 'Nodyn Canllaw Y Gwasanaeth Cyngor Cyn Gwneud Cais' angen eu diweddaru i reoli disgwyliadau'r cwsmeriaid ac i gyd-fynd gyda threfniadau gweithio'r gwasanaeth. Yn dilyn sgwrs gyda'r Rheolwr Cynllunio (Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth) eglurwyd bod y siarter nawr wedi ei dynnu o wefan y Cyngor, mae'n ddogfen hanesyddol ac mae'r un wybodaeth ar gael ar y wefan. Yn ogystal, nodwyd bod angen gwirio'r wefan i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol. Mae rhestr ffioedd 'Nodyn Canllaw Y Gwasanaeth Cyngor Cyn Gwneud Cais' wedi ei gywiro ond mae bwriad i adolygu'r ddogfen yn y dyfodol agos.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Rheolwr Cynllunio (Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth) wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ymateb i fwy o geisiadau cyngor cyn-cyflwyno cais a cheisiadau cynllunio o fewn y cyfnodau statudol a chryfhau'r trefniadau estyniad amser.**
- **Sicrhau bod swyddogion cynllunio yn gwirio bod pob ffeil yn gyflawn cyn penderfynu ar geisiadau a sicrhau bod Arweinyddion Tîm yn cadarnhau hyn cyn awdurdodi'r penderfyniadau.**
- **Sicrhau bod y manylion sydd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio yn gyfredol ar wefan y Cyngor.**
- **Adolygu 'Nodyn Canllaw Y Gwasanaeth Cyngor Cyn Gwneud Cais'.**

# GWASTRAFF GARDD

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â Strategaeth Wastraff 2010 - 2025 y Cyngor, adolygwyd trefniadau casglu gwastraff gardd y Cyngor er mwyn cyflawni arbedion o £750,000 yn y flwyddyn ariannol 2017/18, drwy gyflwyno ffi am y ddarpariaeth.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle wrth reoli a gweinyddu gwasanaeth casglu gwastraff gardd y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, ceisiadau am wasanaeth, trafodion ariannol a chofnodion stoc.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd ar gael yng Ngwynedd am ffi blynyddol. Ar gyfer 2023 roedd ffi o £37 y flwyddyn ar gyfer gwagio 1 bin brown bob pythefnos a £31 y flwyddyn am bob bin brown ychwanegol (gall pob cartref archebu hyd at 4 casgliad bin brown). Mae'r ffioedd yn aros yr un fath ar gyfer 2024 ond mae'r gwasanaeth yn newid i fod dros 10 mis (ni fydd casgliadau yn Ionawr a Rhagfyr).

5.2 Mae archebion am y gwasanaeth yn cael eu prosesu drwy system Ffos. Mae ceisiadau yn cael eu rhannu i'r codau post cywir gan y system ac yna mae'r tîm yn paratoi'r pecynnau gyda'r calendr dyddiadau casglu perthnasol i'r ardal berthnasol ynghyd â sticer sydd i'w roi ar y bin brown. Defnyddir y sticeri ynghyd â thabled yn y lorïau i adnabod y llwybr casglu a'r biniau sydd angen eu casglu. Mae sachau gwastraff gardd hefyd ar gael i rai sydd heb le ar gyfer bin brown ond nodir mai nifer isel sy'n defnyddio'r rhain bellach.

5.3 Nid oes rheolaeth o'r stoc sticeri gwastraff gardd. Mae pecynnau yn cael eu paratoi mewn amryw o lefydd ac nid yw'r stoc yn cael ei gadw dan glo. Mae risg yn bodoli bod unigolion yn derbyn y gwasanaeth heb dalu amdano. Yn dilyn sgwrs gyda'r Rheolwr Casglu Gwastraff ac Ailgylchu a'r Uwch Swyddog Gwastraff/Ailgylchu eglurwyd mai tîm bach sydd yn paratoi'r pecynnau ac ar adegau mae cannoedd o geisiadau angen eu prosesu, ac mai un elfen o'u swydd yw hyn. Fel y mae, cydnabyddir ei fod yn agored i gamdriniaeth. Yn ddelfrydol, dylai mynediad at y stoc gael ei reoli a dylid gallu cysoni swm y stoc gyda nifer yr archebion gyda goddefgarwch ar gyfer sticeri coll, sticeri wedi'u difrodi a.y.b. Cytunwyd y dylid cyflwyno rheolaeth dros fynediad i'r stoc sticeri ond wrth ystyried yr adnodd sydd ar gael nid yw cadw cofnod o'r stoc yn ymarferol ac mae'r risg yn cael ei dderbyn.

5.4 Mae gan y Cyngor Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrthlygredd, ond nid oes gan y gweithwyr casglu gwastraff fynediad rhwydd ato.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cadw stoc sticeri gwastraff gardd dan glo a rheoli'r mynediad atynt.**
- **Adnabod y prif bwyntiau o'r Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrthlygredd, ei addasu a'i gyflwyno i staff fel rhan o'r cyfarfodydd 'Toolbox Talks'.**

Atodiad 5

# GWASTRAFF SWMPUS

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff swmpus ar gyfer trigolion Gwynedd er mwyn gwaredu eitemau mawr e.e. soffa neu rewgell. Mae casgliad ar gyfer hyd at 5 eitem yn £30 a chasgliadau ar gyfer hyd at 10 eitem yn £60. Nid yw'r casgliadau swmpus yn cynnwys casglu unrhyw wastraff masnachol neu wastraff adeiladwyr.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle wrth reoli a gweinyddu'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, ceisiadau am wasanaeth, trafodion ariannol a chofnodion hyfforddiant.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae modd i drigolion Gwynedd archebu casgliad gwastraff swmpus ar-lein, dros y ffôn neu drwy fynd i un o Siopau Gwynedd. Wrth archebu ar-lein mae modd dewis slot casglu o'r rhestr amseroedd a dyddiadau sydd ar gael. Amlygwyd os yw cwsmer yn canslo eu casgliad nid yw'r slot wedyn yn ail-ymddangos ar-lein fel bod cwsmer arall yn gallu ei ddewis. Fodd bynnag, mae modd dyrannu'r slotiau yma i drigolion sydd yn archebu'r gwasanaeth dros y ffôn neu o Siopau Gwynedd yn unig. Golygai hyn ar adegau efallai bod pob slot ddim yn cael ei lenwi wrth i'r gweithwyr fynd allan i gasglu'r gwastraff swmpus.

Mae'r Arweinydd Tîm Systemau a Bathodynnau Glas wedi cysylltu gyda'r gwasanaeth TG er mwyn ceisio cael datrysiad ar gyfer hyn.

5.2 Gall hyd at 13 slot casglu cael eu trefnu ar rai dyddiau o'r wythnos. Amlygodd yr Arweinydd Tîm Dosbarthu Nwyddau, wrth archebu casgliad ar gyfer hyd at 10 eitem, un slot amser sydd yn cael ei archebu, sydd yr un fath a petai hyd at 5 eitem yn cael eu casglu. Maent wedi sylwi y gall hyn achosi aneffeithlonrwydd, gan fod y fan yn llenwi'n gynt ac yn golygu mwy o dripiau yn ôl ac ymlaen i'r ganolfan ail-gylchu i'w waredu. Mae bwriad i drafod hyn ymhellach gyda'r Arweinydd Tîm Systemau a Bathodynnau Glas er mwyn gweld os oes datrysiad yn y flwyddyn newydd.

5.3 Pedwar unigolyn sydd yn casglu'r gwastraff swmpus, gwelwyd mai tri yn unig sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Symud a Thrin ond mae'r hyfforddiant yma angen ei adnewyddu hefyd.

5.4 Mae gan y Cyngor Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrthlygredd, ond nid oes gan y gweithwyr casglu gwastraff fynediad rhwydd ato. Mae hyn eisoes wedi ei adnabod yn ystod yr archwiliad 'Gwastraff Gardd' ac mae'r Rheolwr Casglu Gwastraff ac Ailgylchu wedi cytuno i adnabod prif bwyntiau'r strategaeth, ei addasu a'i gyflwyno i staff fel rhan o'r cyfarfodydd 'Toolbox Talks'.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r swyddog perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Trefnu hyfforddiant Symud a Thrin ar gyfer y gweithwyr a holi'r Uwch Arweinydd Tîm Casglu Gwastraff os oes hyfforddiant y gellir ei roi yn y cyfamser.**

Atodiad 6

## INCWM MASNACHOL

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Cyngor yn casglu gwastraff masnachol, deunyddiau ailgylchu a gwastraff bwyd a gwydr gan nifer o fusnesau Gwynedd am ffi.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a derbyn incwm masnachol yn brydlon a chyson a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau gweinyddu a derbyn incwm ynghyd â threfniadau monitro taliadau drwy edrych ar sampl o fusnesau sy'n derbyn gwasanaeth gwastraff masnachol gan y Cyngor a gwirio ceisiadau, anfonebau a chysoniadau ayb.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 2 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae gan y gwasanaeth system bwrpasol 'Gwastraff Masnachol', sef basdata ble cedwir gwybodaeth am yr holl fusnesau. Derbynnir mynediad '*Darllen yn unig'* i'r system yma yn ogystal â chopïau o daflenni excel a ddefnyddir fel basdata ychwanegol sy'n nodi'r ffioedd gwaredu, ffioedd casglu, cyfanswm ffioedd ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ynghyd â gwybodaeth am y cwsmer. Gwelwyd mai union yr un wybodaeth sydd yn cael ei gadw ar y taenlenni a'r system sydd yn golygu dyblygu gwaith, a nid yw'n bosib gweld os yw'r busnesau wedi talu anfonebau sy'n awgrymu nad yw'r systemau yn addas. Eglurodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu eu bod yn y broses o gaffael system newydd sydd am gymryd lle y taenlenni a'r system 'Gwastraff Masnachol' gwreiddiol.

5.2 Cyhoeddir ffioedd bob blwyddyn ar gyfer gwahanol gasgliadau yn dibynnu ar y math a'r maint o litrau sydd yn cael ei gasglu ar gyfer pob busnes. Gwiriwyd y system 'Gwastraff Masnachol' am sampl o 10 busnes a chymharu'r prisiau a godwyd gyda'r ddogfen ffioedd gyhoeddedig a gwelwyd bod y gwasanaeth wedi codi'r ffioedd cywir ym mhob achos a bod y ffioedd yn cyd-fynd gyda'r casgliadau sydd wedi'u dderbyn.

5.3 Gwiriwyd sampl o 10 anfoneb oddi ar y cyfriflyfr a gwiriwyd rhain yn ôl i'r rhestr o wasanaethau a dderbynnir gan y busnesau. Roedd yr holl gasgliadau wedi ei nodi ar y system a'r taenlenni cysoniadau, a gwelwyd bod y swm a godwyd ar y busnesau yn gywir ar gyfer y sampl cyfan. Yn ogystal, gwiriwyd sampl pellach o fusnesau oddi ar y system er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu anfonebu.

5.4 Mae'r gwasanaeth yn derbyn adroddiadau ôl-ddyledion gan y Gwasanaeth Incwm yn chwarterol. Disgwylir i fusnesau sydd ddim yn talu o fewn amser rhesymol i beidio derbyn gwasanaeth pellach, ond gwiriwyd y cyfriflyfr am fusnesau sydd gyda symiau sy'n ddyledus (outstanding) a gwelwyd enghreifftiau amlwg ble mae busnesau heb dalu ond yn parhau i dderbyn gwasanaeth. Mewn un enghraifft roedd dros 5 mlynedd o anfonebau heb eu talu a'r gwasanaeth yn parhau i dderbyn gwasanaeth, ac mewn enghraifft arall roedd busnes wedi bod yn gwneud rhandaliadau am symiau bychain hyd at 2021 ond wedi stopio talu ar ôl hyn ac wedi derbyn gwasanaeth yn 2022 a 2023 heb dalu unrhyw anfoneb.

5.5 Mae gan y Cyngor Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrthlygredd, ond nid oes gan y gweithwyr casglu gwastraff fynediad rhwydd ato. Mae hyn eisoes wedi ei adnabod yn ystod yr archwiliad 'Gwastraff Gardd' ac mae'r Rheolwr Casglu Gwastraff ac Ailgylchu wedi cytuno i adnabod prif bwyntiau'r strategaeth, ei addasu a'i gyflwyno i staff fel rhan o'r cyfarfodydd 'Toolbox Talks'.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Gwirio adroddiadau ôl-ddyledion y Gwasanaeth Incwm a sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei atal os yw busnesau mewn dyled hir-dymor.**
- **Parhau i chwilio am system addas ac yna newid o'r system Gwastraff Masnachol sydd mewn lle ar hyn o bryd.**

Atodiad 7

## RHEOLAETH CATEGORI CORFFROAETHOL - AMGYLCHEDD

### 1. Cefndir

1.1 Mae Rheolaeth Categori yn ddull newydd o bwrcasu sydd yn rhoi pwyslais penodol ar amcanion strategol y Cyngor i gadw'r budd yn lleol ac arbed arian, yn ogystal â chwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth y Cyngor. Mae'r categorïau gwariant yn feysydd gwariant ehangach na ffiniau adrannol y Cyngor. Mae tri tîm ar gyfer rheolaeth categori o fewn y Cyngor sef, tîm categori amgylchedd, pobl a chorfforaethol.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd gwirio bod trefniadau addas mewn lle i sicrhau bod y Cyngor yn gwario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal adolygiad ar sampl o gytundebau er mwyn gwirio datblygiad y Cyngor o gynlluniau categori trawsadrannol a gwirio bod y gwasanaeth yn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewnol mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwiriwyd os oedd polisïau gan y gwasanaeth Rheolaeth Categori ar gyfer meddiannu gwybodaeth am sut i bwrcasu nwyddau/gwasanaethau drwy reolaeth categori, ond darganfuwyd nad oes gan y gwasanaeth bolisïau penodol eu hunain. Eglurodd y Rheolwr Categori Corfforaethol bod y gwasanaeth yn dilyn polisïau caffael y Cyngor ac yn dilyn trefn yr Uned Gaffael, oedd yn briodol.

5.2 Gwiriwyd drefn yr Uned Caffael er mwyn adnabod os yw swyddogion yn derbyn arweiniad ac yn gweithredu'n gywir wrth brynu nwyddau/gwasanaethau newydd. Eglurodd y Rheolwr Categori Corfforaethol bod gwasanaethau fel arfer yn mynd at yr Uned Gaffael i gychwyn ac yna yn cael eu cyfeirio at Reolaeth Categori. Eglurodd y Rheolwr Categori Corfforaethol er eu bod yn gweithio yn agos gyda staff, credir bod diffyg dealltwriaeth o Reolaeth Categori ar draws y Cyngor yn gyffredinol gyda'r mwyafrif yn defnyddio e-gaffael a rhai gwasanaethau yn dewis i aros gyda'u cyflenwyr presennol. Cadarnhawyd eu bod wedi gweld gwahaniaeth mewn niferoedd yn defnyddio'r gwasanaeth pan mae'r gwasanaeth Rheolaeth Categori wedi bod yn hybu er mwyn codi ymwybyddiaeth am y broses gaffael drwy Reolaeth Categori.

5.3 Mae Cadw'r Budd yn Lleol yn rhan o gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. Gwelwyd bod y gwasanaeth yn mesur perfformiad y gwasanaeth drwy gyfarfodydd herio perfformiad sy'n cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, adroddwyd y bydd y gwasanaeth Rheolaeth Categori yn cychwyn cynnal cyfarfodydd herio perfformiad eu hunain o fis Ebrill 2024 ymlaen a bydd y mesuryddion perfformiad yn cynnwys arbedion/gwerth am arian, yn ogystal â chadw'r budd yn lleol.

5.4 Gwiriwyd sampl o gontractau i sicrhau bod cytundebau mewn lle a bod gweithgareddau caffael megis dyfynbrisiau, tendro a hysbysebu wedi'u cwblhau a'u dilyn yn gywir. Gwelwyd bod y cytundebau ar gyfer y sampl o gyflenwyr a ddetholwyd yn bodoli, a bod y tendrau wedi'u sgorio a'u hysbysebu yn briodol. Er hynny, cadarnhaodd y Rheolwr Categori Corfforaethol nad oedd y rhaglen waith yn gyflawn ac nad oes cytundebau wedi eu sefydlu mewn sawl achos ar gyfer pob cyflenwr. O'r rhaglen waith, nid oedd yn bosib adnabod y nifer o gyflenwyr sydd heb gytundebau ffurfiol a'u gwerth ac nid oedd y wybodaeth ar gael i'w derbyn gan y gwasanaeth yn ystod yr archwiliad. Yn ogystal, mae sawl contract angen eu hadnewyddu. Esboniodd y Rheolwr Rheolaeth Categori Corfforaethol bod diffyg adnodd yn y gwasanaeth yn golygu bod y rhaglen gwaith yn dioddef, a gwelwyd bod trafodaeth am hyn wedi bod ac wedi ei roi fel prif bwynt yn deillio o drafodaeth a chyfarfod 'Rheolaeth Categori i'r Dyfodol' a gynhaliwyd ddiwedd 2023.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Tîm Rheolaeth Categori wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Codi ymwybyddiaeth a cheisio tynnu sylw at yr hyn mae rheolaeth categori yn ei gynnig fel bod gwasanaethau ar draws y Cyngor yn manteisio ar yr arbenigedd sydd ar gael.**
- **Chwynnu y rhaglen waith er mwyn ei wneud yn fwy realistig a chodi ymwybyddiaeth er mwyn i wasanaethau fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb.**
- **Gwneud ymchwil i gael system fwy priodol ac addas ar gyfer rheolaeth categori.**

Atodiad 8

## RHEOLI GWYBODAETH - SEFYDLIADAU

### 1. Cefndir

1.1 Mae'r Cyngor yn gwneud cryn ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith. Fel rhan o'i gyflogaeth gyda Chyngor Gwynedd, mae disgwyl i bob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'i gyfrifoldebau Diogelu Data ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC, neu 'GDPR').

1.2 Daeth y RhDDC i rym ym Mai 2018, yn ogystal â Deddf Diogelu Data 2018 (oedd yn disodli Deddf Diogelu Data 1998). Golyga hyn y bydd yn rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r RhDDC ynghyd â'r Ddeddf Diogelu Data newydd. Mae angen esbonio yn llawer mwy eglur i'r cyhoedd a staff sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio. Mae gan unigolion lawer mwy o hawliau a bydd angen prawf pendant o ganiatâd i ddefnyddio gwybodaeth. Mae'n rhaid adrodd yn genedlaethol os yw gwybodaeth yn mynd ar goll neu i'r lle anghywir a bydd angen gwybod pa wybodaeth bersonol sy'n cael ei gadw, lle mae'n cael ei storio, efo pwy mae'n cael ei rannu a pha mor hir bydd yn cael ei gadw.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei gadw yn ddiogel ac mewn cydymffurfiaeth ag egwyddorion y RhDDC a'r Ddeddf Diogelu Data. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu arsylwi ar drefniadau diogelu gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau'r Cyngor sydd y tu allan i'r prif adeiladau. Roedd hyn yn cynnwys Cartrefi Preswyl y bu i Archwilio Mewnol ymweld â hwy fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Dim ond dau allan o'r tri Rheolwr Cartrefi Preswyl ymholwyd oedd yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth. Er hynny, gwelwyd bod gan y tri cartref ddealltwriaeth dda o'r rheolau diogelwch gwybodaeth. Gwelwyd bod y tri cartref yn cadw at y polisi desg glir, yn ymwybodol o'r cyfnodau cadw gwybodaeth ac yn gwneud defnydd o larpiwyr a sachau coch.

5.2 Dim ond dau allan o'r tri cartref oedd gan drefniadau ar gyfer gwirio pwy sydd ar ben arall y ffôn, ond roedd gan y tri cartref fan preifat ar gyfer trafod unrhyw faterion cyfrinachol a chadarnhaodd y Rheolwyr Cartrefi Preswyl nad ydynt yn rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol dros y ffôn. Gwelwyd bod staff yn cwblhau ffurflenni cyfrinachedd sydd yn ran o'r pecyn cais, ac felly yn ymwybodol o'r angen i beidio â thrafod materion tu allan i'r gwaith.

5.3 Gwelwyd bod sgriniau cyfrifiaduron wedi eu cloi pan nad oeddynt yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodau'r ymweliadau mewn dau o'r Cartrefi allan o'r tri, ond ni welwyd cyfrineiriau ar sgriniau yn ystod yr ymweliadau yn unrhyw un o'r Cartrefi.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr Cartrefi Preswyl o drefniadau rheoli gwybodaeth gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol**

Atodiad 9

## TREFNIADAU DIOGELU - SEFYDLIADAU

### 1. Cefndir

1.1 Un o brif flaenoriaethau Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn mewn lle er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, trais yn y cartref ac ecsploetiaeth. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i adrodd ar bryder neu amheuaeth fod unigolion yn cael eu cam-drin.

1.2 Mae nifer o bosteri ynghyd â phamffledi a chardiau cyswllt wedi eu cynhyrchu er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o faterion a threfniadau diogelu. Yn ogystal, mae modiwlau e-ddysgu ar gael i weithwyr sydd â mynediad at gyfrifiadur a thrwy hunan-wasanaeth ar gyfer gweithwyr maes.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod sefydliadau tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gyfeirio pryderon am ddiogelu plant ac oedolion yn briodol.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda Rheolwyr ac arsylwi bod poster diogelu yn cael ei arddangos mewn sefydliadau y tu allan i'r prif swyddfeydd. Roedd hyn yn cynnwys cartrefi preswyl Cyngor Gwynedd bu i Archwilio Mewnol ymweld â hwy fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Mewnol 23/24.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth o faterion diogelu, ond fod lle i wella ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Ymysg y rhaglenni archwilio, fe archwiliwyd trefniadau diogelu megis polisïau diogelu, hyfforddiant a dadleniadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG/DBS). Gweler isod grynodeb o'r darganfyddiadau.

5.2 Roedd pob cartref yn y sampl yn dilyn polisi diogelu corfforaethol y Cyngor, ac roedd copi o'r polisi ar gael i staff yn y swyddfeydd neu ar-lein. Roedd mwyafrif o'r cartrefi yn dilyn fersiwn Medi 2017 o'r polisi a ddim yn ymwybodol bod fersiwn mwy diweddar sef Hydref 2023, gafodd ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Chwefror 2024 a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn mis Mawrth 2024.

5.3 Gwelwyd bod poster diogelu wedi ei arddangos mewn 4/6 o'r cartrefi preswyl a ymwelwyd â hwy. Yn yr achosion ble nad oedd poster wedi ei arddangos, eglurodd y Rheolwyr eu bod yn cychwyn annog staff i ddefnyddio 'ap' Diogelu (Wales Safeguarding Procedures) ar eu ffonau er mwyn i staff gael gwybodaeth pe byddai angen.

5.4 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant e-ddysgu gan gynnwys modiwlau 'Cam-drin Domestig', 'Diogelu Oedolion' ac 'Amddiffyn a Diogelu Plant'. Detholwyd sampl o 66 aelod o staff rhwng y 6 cartref a gwelwyd mai 39% o aelodau staff oedd wedi cwblhau'r modiwl 'Diogelu', 71% aelodau staff oedd wedi cwblhau'r modiwl 'Cam-drin Domestig', a dim ond 16% aelodau staff oedd wedi cwblhau'r modiwl 'Atal' rhwng y 6 cartref.

5.5 Gwelwyd bod staff y cartrefi yn derbyn amrywiaeth gwahanol o hyfforddiant diogelu fel rhan o'u hanwythiad. Dylai'r gweithwyr dderbyn hyfforddiant diogelu drwy ffurf ystafell ddosbarth pob tair blynedd. Nid oedd pob aelod o staff yn y sampl a wiriwyd wedi derbyn hyfforddiant diogelu oedolion bregus, a darganfuwyd achosion ble roedd angen ei adnewyddu.

5.6 Detholwyd sampl o 66 aelod o staff rhwng y cartrefi a archwiliwyd a gwelwyd bod gan bob un ohonynt ddadleniad GDG cyfredol.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Panel Gweithredol Diogelu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau diogelu corfforaethol a'r angen i gwblhau hyfforddiant.**

Atodiad 10

## BUDD-DALIADAU – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL

### 1. Cefndir

1.1 Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Mai 2018 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu, lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" ac felly cynhelir adolygiad ar reolaethau allweddol y system yma yn flynyddol.

1.2 Bydd y Gwasanaeth Budd-dal yn prosesu ceisiadau am fudd-dal tai a gostyngiad treth cyngor pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno cais i hawlio budd-dal tai a/neu ostyngiad treth cyngor ynghyd â thystiolaeth briodol, gan gynnwys cadarnhad ei bod yn fyr o incwm a methu fforddio rhent a/neu gost y dreth cyngor.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol drwy wirio sampl o geisiadau budd-dal ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Roedd yr archwiliad hefyd yn cwmpasu cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r System Budd-daliadau.

5.2 Detholwyd ar hap sampl o 20 o geisiadau newydd o'r adroddiad 'hb7243a' a gwelwyd bod tystiolaeth wedi'i dderbyn ar gyfer pob cais a bod y dystiolaeth yn unol â pholisi gwireddu ar sail risg. Gwelwyd bod y dystiolaeth wedi'u ffeilio ar system DIP h.y. ffurflen gais, cerdyn/papurau adnabod a/neu rent. Yn ogystal, mae'r wybodaeth ar gael i aseswyr ar system Adran Gwaith a Phensiynau, 'Searchlight'. Gwiriwyd sampl o 5 o daliadau estynedig a 15 o geisiadau wedi eu ôl-ddyddio a gwelwyd eu bod yn unol â'r rheoliadau cyfredol.

5.3 Gwelwyd bod cysoniadau rheolaidd wedi cael eu cynnal o'r system budd-dal i'r cyfriflyfr a'r system trethi a'u bod yn briodol. Derbyniwyd ymateb gan y Rheolwr Budd-dal bod problemau wedi bod gyda cysoni rhwng Budd-dal a Tai ers iddynt symud oddi wrth system 'Academy Housing' ond fod y gwasanaeth Tai yn symud i system 'Civica' ac eisoes wedi gofyn am adroddiadau er mwyn gallu cysoni rhwng y ddwy system.

5.4 Gwiriwyd paramedrau'r system budd-daliadau er mwyn sicrhau bod y cyfraddau wedi cael eu gosod yn gywir yn unol â'r cyhoeddiadau diweddaraf o'r cyfraddau budd-dal gan yr Adran Waith a Phensiynau ac ymddengys bod y manylion wedi eu mewnbynnu yn gywir.

5.5 Mynegodd y Rheolwr Budd-daliadau bod y system Capita yn caniatáu archifo dogfennau a bod cynlluniau yn y dyfodol agos i uwchraddio system DIP, ac un o'r camau fyddai edrych ar ddileu hen ddogfennau oddi ar system DIP a'r cyfrifon cysylltiedig ar Capita.

5.6 Gwelwyd bod copi wrth gefn yn cael ei gynnal yn ddyddiol ar gyfer y system budd-dal. Er nad oes prosesau profi rheolaidd mewn lle, mae ceisiadau am adfer peiriannau neu ffolderi, ffolderi o gyfnodau cynharach wedi cael eu cynnal ac adroddwyd bod y system wedi profi'n effeithiol wrth ddiwallu'r anghenion hynny. Fe dderbyniwyd copi o Gynllun Parhad Gwasanaeth yr Adran Gyllid, dyddiedig Medi 2019. Ymddengys nad oes newidiadau yn y gyfundrefn ond bod angen diweddaru'r ddogfen o ran manylion swyddogion a chyswllt.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwr Budd-dal / Gwasanaeth Cyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ysgogi defnydd o archifo/gwaredu dogfennau/ffeil oddi ar systemau budd-dal a gwaredu dogfennaeth yn unol á'r cyfnod gwaredu dogfennau'r gwasanaeth.**

Atodiad 11

# CARTREF CEFN RODYN

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Cefn Rodyn wedi ei leoli yn Nolgellau ac yn darparu cefnogaeth gofal tymor-hir a thymor-byr i hyd at 22 o breswylwyr.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 6 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae cartrefi gofal wedi bod drwy gyfnod anodd yn ddiweddar gydag effaith covid ynghyd â phrinder staffio yn amharu ar y gwasanaeth. Er hynny, gwelwyd bod Cartref Cefn Rodyn gyda threfniadau priodol mewn lle ond gellir tynhau ar rai elfennau.

5.2 Ers Hydref 2022, mae’n ofynnol i weithwyr cartrefi gofal gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC). Mae gan unrhyw weithiwr cartref gofal sydd wedi cychwyn yn ei swydd cyn Medi 2022, flwyddyn o’u dyddiad cychwyn i gofrestru, ond dim ond chwech mis sydd gan weithwyr i gofrestru os ydynt wedi dechrau eu swydd yn neu ar ôl Ebrill 2023. Gwiriwyd sampl o staff a gwelwyd bod 10 allan o 12 wedi cofrestru gyda GCC a bod cyfnod cofrestru'r 2 sydd heb gofrestru wedi mynd heibio. Eglurodd y Rheolwr Cartref ei bod yn ymwybodol bod ychydig o staff angen cofrestru, gan gynnwys staff newydd sydd o fewn y cyfnod cofrestru ond bod rhain ar y gweill.

5.3 Gwelwyd bod y Cartref wedi derbyn archwiliadau allanol yn ddiweddar, sef archwiliad rheoli meddyginiaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, archwiliad gan yr adran Tai ac Eiddo ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae’r Cartref hefyd yn disgwyl archwiliad meddyginiaeth gan y fferyllfa gymunedol felly penderfynwyd derbyn sicrwydd ar safonau rheoli meddyginiaeth y Cartref gan arbenigwyr meddyginiaeth rhag dyblygu gwaith. Fodd bynnag, nid oedd y fferyllfa gymunedol wedi gallu cynnal eu harchwiliad cyn ymweliad archwilio mewnol ac felly nid oedd modd derbyn sicrwydd ar safon rheoli stoc meddyginiaeth y Cartref. Er hynny, derbyniwyd copi o adroddiadau gan y Bwrdd Iechyd, AGC a’r adran Tai ac Eiddo a gwelwyd bod nifer o argymhellion a chamau gweithredu wedi’u hadrodd a bod ambell rai wedi’u gweithredu yn barod, e.e. wedi cael thermomedr digidol yn yr ystafell feddyginiaeth. Cadarnhawyd bod yr adroddiadau i gyd yn derbyn sylw a bydd pob ymdrech i weithredu ar yr argymhellion yn brydlon.

5.4 Disgwylir i oruchwyliaeth staff gael ei gynnal yn chwarterol gan y Rheolwr neu’r Rheolwr Cynorthwyol. Gwiriwyd sampl o 4 aelod o staff a gwelwyd bod goruchwyliaeth ymarfer wedi cymryd lle ym mis Gorffennaf, Ebrill ac Awst, ond nad oedd goruchwyliaeth fwy personol yn trafod iechyd a lles wedi cymryd lle ers cychwyn y flwyddyn. Eglurodd y Rheolwr ei bod yn ymwybodol bod y rhain angen eu cwblhau a'i bod wrthi’n gweithio trwyddynt.

5.5 Detholwyd sampl o 10 o aelodau staff y cartref gan gynnwys staff dydd, nos ac achlysurol a gwriwyd eu cofnodion hyfforddiant ar gyfer Symud a Thrin, Diogelu a Chymorth Cyntaf. Gofynnir i staff gwblhau’r cyrsiau yma a’u hadnewyddu pob 3 mlynedd. Er bod sawl un yn y sampl wedi cwblhau’r cyrsiau gwelwyd nad oeddynt wedi eu hadnewyddu o fewn y cyfnod 3 mlynedd. Roedd gan 4 allan o 10 gymhwyster Symud a Thrin cyfredol, 9 allan o 10 gyda cymhwyster Cymorth Cyntaf cyfredol a 7 allan o 10 wedi cwblhau’r cwrs Diogelu yn y 3 mlynedd diwethaf. Roedd y Rheolwr yn ymwybodol bod hyfforddiant rhai wedi dyddio a'i bod wrthi yn trefnu i staff gael hyfforddiant ond bod rhaid sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd yn y cartref yr un adeg sydd yn rhwystro’r gallu i bawb fynychu cwrs, yn ogystal â’r nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar y cyrsiau.

5.6 Fel aelod o staff Cyngor Gwynedd mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau'r 7 modiwl e-ddysgu corfforaethol mandadol sef: Diogelu Data, Cydraddoldeb, Diogelu, Cam-drin Domestig, Atal, Iechyd a Diogelwch ac Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg. Mae'r cartref yn gofyn i staff gwblhau 24 o fodiwlau craidd, sydd ychydig yn wahanol i'r modiwlau corfforaethol, gan nad yw rhai o'r modiwlau wedi eu cynnwys yn y rhestr. Darganfuwyd bod y cyflwyniadau ar gyfer rhai o'r modiwlau yma'r un fath a'r rhai corfforaethol, felly nad oes disgwyl i'r staff eu cwblhau eto, ond bod angen i'r cartref ychwanegu'r tri modiwl ychwanegol i'w rhestr. Gwelwyd bod 8 allan o'r 10 wedi cwblhau'r modiwl 'Cam-drin Domestig' ond niferoedd bach oedd wedi cwblhau'r modiwlau eraill e.e. 1 yn y sampl sydd wedi cwblhau'r modiwl 'Atal' a neb wedi cwblhau'r modiwl Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg.

5.7 Mae'r Rheolwr a'r Clerc yn derbyn adroddiadau cyllidebol yn fisol gan yr adran Gyllid, ond eglurwyd er bod cefnogaeth ar gael gan y Rheolwr Ardal, cred y bydd yn fuddiol iddynt i dderbyn hyfforddiant ar fonitro cyllideb. Eglurodd y Clerc ei bod yn defnyddio taenlen cyllideb ei hun er mwyn monitro unrhyw gôr/tanwariant ond hoffai gael esboniad mwy manwl ar rai elfennau/penawdau'r gyllideb.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod holl staff yn gallu cofrestru ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru a bod pob swyddog yn cofrestru o fewn yr amserlen statudol.**
- **Parhau i gynnal goruchwyliaeth staff ac anelu i'w gwblhau o fewn yr amserlen.**
- **Holi'r adran Gyllid am fynediad 'darllen yn unig' ac hyfforddiant i'r cyfriflyfr ar gyfer monitro cyllideb yn rhagweithiol.**
- **Gweithredu ar unrhyw argymhellion o'r archwiliadau canlynol: Arolygiaeth Gofal Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a'r adran Tai ac Eiddo.**
- **Anfon cadarnhad at Archwilio Mewnol o ganlyniadau'r archwiliad rheoli stoc meddyginiaeth y Cartref a gynhaliwyd gan y fferyllfa gymunedol pan gaiff ei gynnal.**
- **Adolygu statws hyfforddiant staff a threfnu i aelodau staff fynychu hyfforddiant fel bod angen**.
- **Ychwanegu'r modiwlau corfforaethol sydd ddim ar matrics hyfforddiant y gwasanaeth i'r rhestr o fodiwlau mandadol y cartref.**

Atodiad 12

**DILYNIANT DIOGELIADAU AMDDIFFYN RHYDDID**

**1. Cefndir**

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid fel rhan o gynllun 2022/23, er mwyn sicrhau fod Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid presennol (Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS) yn addas i bwrpas. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol gwiriwyd bod trefniadau digonol mewn llaw ar gyfer y gyfundrefn newydd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (Liberty Protection Safeguards - LPS) yn ogystal â gwirio'r trefniadau presennol ar gyfer asesiadau DoLS. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu holi'r swyddogion perthnasol ynglŷn â'r gweithrediadau cytunedig.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Yn sgil yr archwiliad gwreiddiol ym mis Mawrth 2023 adnabuwyd 2 risg. Gwelwyd bod un risg (R01 gwreiddiol) wedi ei ddiddymu a bod y gweithrediadau a gytunwyd ar gyfer yr ail risg wedi eu gweithredu ond bod y risg yn parhau i fodoli, adroddir y casgliadau isod.

5.2 ***Risg (R01 gwreiddiol): Methiant i baratoi ar gyfer y newidiadau diwygiedig gall arwain at y Cyngor i fethu darparu gwasanaeth priodol a diogelu ac amddiffyn unigolion bregus/mewn risg.***

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar y 5$^{ed}$ o Ebrill 2023: *"Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu camu yn ôl o gyflwyno'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (Deddf 2019). Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fydd y ddeddfwriaeth angenrheidiol i weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael ei chyflwyno yn ystod Senedd bresennol y DU."*

5.3 ***Risg (R02 gwreiddiol): Y Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Deddfau cyfreithiol yn ymwneud â DoLS.***

Adroddodd yr Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol bod data'r daenlen DoLS wedi cael ei lanhau h.y. adnabod ceisiadau dyblyg ac unigolion sydd wedi marw, mae hyn wedi lleihau'r nifer ar y rhestr aros yn sylweddol. Yn ogystal mae'r data wedi cael ei drosglwyddo oddi ar daenlen i'r system WCCIS.

5.4 Nodir yn natganiad Llywodraeth Cymru, *"Neilltuwyd £8m o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2022/23 i gefnogi paratoadau ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS). Gan nad oedd y rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn derfynol ar y pryd, defnyddiwyd swm sylweddol o'r cyllid hwnnw ar gyfer darparu hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, ac i reoli'r system bresennol o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa gryfach i bontio i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"...Bydd Llywodraeth Cymru felly yn parhau i ddarparu cyllid ar lefel debyg i lefelau 2022/23, er mwyn sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu hamddiffyn cyn i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid gael eu gweithredu yn y dyfodol."*

Derbyniwyd £125,000 o arian grant yn ystod 2023/24, defnyddir i ariannu staff asiantaeth a'r Aseswyr Pennaf Les mewnol (Best Interest Assesors - BIA) sydd yn cynnal asesiadau yn ychwanegol i'w gwaith dydd i ddydd. Nid oes arian wedi eu sefydlu ar gyfer 2024/25 hyd yma. Nodir fel rheol nad ydynt yn cael gwybod tan Ebrill os oes arian grant ar gael er mwyn gwneud cais at y flwyddyn gyfredol.

5.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddent yn ystyried sut i gryfhau'r system bresennol o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yng Nghymru a pharhau i amddiffyn a hybu hawliau dynol yr unigolion hynny â diffyg galluedd meddyliol. Nodir, *"... mae'n briodol inni ymgysylltu unwaith eto â'r rhanddeiliaid hyn er mwyn inni allu gwrando a chlywed beth y gallwn ei wneud yn awr i fynd i'r afael â rhai o'r heriau presennol o ran y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith presennol o gymhwyso'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, ac yn cryfhau'r sefyllfa y bydd Cymru ynddi i bontio i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn y dyfodol."*

Hyd yma nid oes unrhyw newidiadau i'r drefn bresennol. Fel y mae, mae risg uchel yn parhau bod y Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth gyda'r trefniadau DoLS h.y. y nifer o ddyddiau i gwblhau asesiad awdurdodiad safonol yn uwch nag hyn sydd yn ddisgwyliedig. Er bod y rhestr aros wedi lleihau mae nifer fawr o geisiadau yn parhau i gael eu derbyn ar ben rheini sydd yn disgwyl am asesiad. Mynegodd y Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol bod bwriad i gyflwyno hyn i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal (dyddiad i'w gadarnhau) er mwyn cadarnhau os oes modd lliniaru'r risg, oherwydd gyda'r adnoddau presennol, ymddengys nad oes opsiynau ymarferol ac felly tebygolrwydd bydd yn anorfod derbyn y risg o'r Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Deddfau cyfreithiol yn ymwneud â DoLS.